

**Adroddiad i'r:** Cyngor Sir

**Dyddiad y Cyfarfod:** 26 Ionawr 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Hugh Evans/Gary Williams

**Awdur yr Adroddiad:** Gary Williams

**Teitl:** Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r ymarfer ymgynghori sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft ("y Bil Drafft").

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Y rheswm dros lunio'r adroddiad yw pennu ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn nodi cynnwys y Bil Drafft ac yn ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad drafft a nodir yn Atodiad 3.

3.2 Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp i gwblhau telerau ymateb y Cyngor gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Cyngor.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Bydd Aelodau'n cofio, yn 2015, darparu ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol - Pŵer i Bobl Leol (" y Papur Gwyn)". Mae Llywodraeth Cymru, ers hynny, wedi deddfu Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer uno gwirfoddol o awdurdodau lleol, pwyllgorau pontio, yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer awdurdodau newydd a chyfyngiadau ar drafodion a recriwtio trwy uno awdurdodau.

4.2 Mae'r Bil Drafft yn gwneud cynigion ar gyfer uno awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol ac yn gofyn am sylwadau ar y cynigion hynny. Mae'r Bil Drafft, fodd bynnag, yn cynnwys llawer mwy na chynigion ar gyfer uno. Mae'r cynigion i uno wedi'u nodi yn Rhan 1 y Bil Drafft. Mae 8 rhan i'r Bil Drafft a byddai Rhannau 2-8, os caiff ei ddeddfu fel darn o ddeddfwriaeth arunig, yn gweld y diwygiadau llywodraeth leol mwyaf sylweddol yng Nghymru ers Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'n bwysig felly bod yr Aelodau yn ystyried goblygiadau'r darpariaethau hyn mewn o leiaf gymaint o ddyfnder â'r cynigion ar gyfer uno. Mae hefyd yn bwysig bod yr ymateb yn ystyried amseriad rhai

cynigion ac a ddylent gael eu gohirio hyd nes y bydd y cynghorau newydd yn cael eu creu.

4.3 Ynglwm wrth yr adroddiad hwn mae'r atodiadau canlynol:

Atodiad 1 Crynodeb o brif ddarpariaethau'r Bil Drafft  
Atodiad 2 Dogfen Ymgynghori  
Atodiad 3 Ymateb i'r ymgynghoriad drafft  
Atodiad 4 Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft  
Atodiad 5 Memorandwm Esboniadol Drafft

4.4 Mae'r Bil Drafft wedi ei strwythuro mewn 8 rhan fel a ganlyn:

Rhan 1 Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir  
Rhan 2 Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol  
Rhan 3 Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol  
Rhan 4 Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau  
Rhan 5 Cynghorau Sir: Gwell Llywodraethu  
Rhan 6 Cynghorau Cymuned  
Rhan 7 Materion Gweithlu  
Rhan 8 Cyffredinol ac Atodlenni

4.5 Mae'n bwysig nodi wrth gynhyrchu'r Bil Drafft, bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd i ystyriaeth nifer o'r pryderon a fynegwyd gan gynghorau yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Nid yw rhai o'r cynigion dadleuol megis terfynau tymor ar gyfer cynghorwyr, etholiadau fesul cam ac adolygu tâl aelodau, yn ymddangos yn y Bil Drafft. Awgrymir y dylai ymateb y Cyngor i'r Bil Drafft groesawu cael gwared â chynigion a gynhwysir yn y Papur Gwyn mae wedi'i feirniadu'n flaenorol.

4.6 Fodd bynnag, mae nifer o gynigion nad oedd y Cyngor yn cytuno â hwy pan ymgynghorwyd arnynt y tro cyntaf yn y Papur Gwyn sy'n aros yn y Bil Drafft. Pan fydd cynigion o'r fath yn ymddangos, mae'r ymateb drafft yn seiliedig ar yr hyn a gytunwyd mewn ymateb i'r Papur Gwyn.

4.7 Lle mae'r Bil Drafft yn cynnwys cynigion sydd wedi cael eu newid yn sylweddol gan y rhai yn y Papur Gwyn mae ymateb drafft wedi ei baratoi gan swyddogion i'w ystyried gan yr Aelodau.

4.8 Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â materion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil Drafft hwn ond yn faterion y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn arnynt cyn rhoi ystyriaeth bellach iddynt, gall rhai ohonynt ymddangos yn y Bil terfynol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

4.9 Awgrymir bod y Cyngor yn trafod cynnwys yr ymateb drafft ac yn awdurdodi'r Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp i gwblhau telerau ymateb y Cyngor.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn golygu unrhyw gostau ychwanegol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes gofyniad am asesiad.

## **8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni fu unrhyw ymgynghori â'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, fodd bynnag, roedd ymateb y Cyngor i'r Papur Gwyn yn destun ystyriaeth gan Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Bydd y Bil Drafft yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 22 Ionawr i'r graddau y mae'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor a bydd barn y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i'r Cyngor.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r broses ymgynghori. Mae ystod eang o oblygiadau ariannol ac eraill posibl sy'n cael eu trafod yn yr ymateb i'r ddogfen ymgynghori.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risgiau o beidio ymateb i'r ymgynghoriad yw na fydd barn y Cyngor yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu'n derfynol ar ddarpariaethau'r Bil i gael ei roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.